OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2015 Rhif 1295 (Cy. 102)

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Sanclêr, Sir Gaerfyrddin i Ddoc Penfro, Sir Benfro), Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Penblewin i Hwlffordd a Hwlffordd i Abergwaun, Sir Benfro) a Chefnffordd yr A4076 (Hwlffordd i Aberdaugleddau, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *2 Ebrill 2015* |
| *Yn dod i rym* | *13 Ebrill 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Sanclêr - Doc Penfro (yr A477), Cefnffordd Llundain - Abergwaun (yr A40) a Chefnffordd Hwlffordd - Aberdaugleddau (yr A4076) ("y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd y tebygolrwydd y byddai perygl i'r cyhoedd o ganlyniad i gludo llwythi anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Ebrill 2015. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Sanclêr, Sir Gaerfyrddin i Ddoc Penfro, Sir Benfro), Cefnffordd yr A40 (Cylchfan Penblewin i Hwlffordd a Hwlffordd i Abergwaun, Sir Benfro) a Chefnffordd yr A4076 (Hwlffordd i Aberdaugleddau, Sir Benfro) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2015.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith o gludo'r llwythi anwahanadwy annormal sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y cludo" ("*transportation period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 13 Ebrill 2015 ac sy'n dod i ben pan fydd y gwaith o symud y llwythi anwahanadwy annormal wedi ei gwblhau;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk roads*") yw'r darnau o brif gerbytffyrdd Cefnffyrdd yr A477, yr A40 a'r A4076 yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y cludo, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**5.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 2 Ebrill 2015

***R Morgan***
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.

**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLEN

## CEFNFFORDD YR A477

1) Y darn o gefnffordd yr A477 sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Sanclêr, Sir Gaerfyrddin hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Waterloo, Doc Penfro, Sir Benfro.

2) Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Waterloo, Doc Penfro, Sir Benfro.

## CEFNFFORDD YR A40

1) Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Penblewin, Sir Benfro hyd at ei chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Salutation Square, Hwlffordd, Sir Benfro.

2) Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Salutation Square, Sir Benfro.

3) Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Scotchwell, Hwlffordd hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Wdig, Abergwaun.

4) Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Scotchwell, Hwlffordd.

5) Y darn cyfan o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Wdig, Abergwaun.

## CEFNFFORDD YR A4076

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o'i chyffordd â phrif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Salutation Square, Sir Benfro hyd at bwynt sy'n gyfagos i'r hen Celtic Garage, St Lawrence Hill, Aberdaugleddau, Sir Benfro.